



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Troseddol

## Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth: Tâl am ymgysylltu cyn cyhuddo

1. Ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaethon ni gyhoeddi adolygiad cynhwysfawr o'r system cymorth cyfreithiol troseddol a oedd yn cynnwys yr holl gynlluniau ffioedd a'r farchnad yn ehangach. Roedd y llywodraeth ar y pryd yn cydnabod bod natur y system cyfiawnder troseddol wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod nifer yr achosion oedd yn dod drwy'r system wedi gostwng, roedd yr achosion wedi mynd yn fwy cymhleth ac roedden nhw'n cymryd mwy o amser i bawb a oedd yn ymwneud â'r broses cyfiawnder troseddol ddelio â nhw, gan gynnwys yr heddlu, erlynwyr, ymarferwyr yr amddiffyniad a'r llysoedd.
2. Wrth edrych ymlaen, bydd tirwedd y system cyfiawnder troseddol yn parhau i esblygu fel rhan o sylw'r Llywodraeth ar gyfraith a threfn, gan gynnwys cynlluniau i recriwtio 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig ein bod yn gwneud beth sydd ei angen i sicrhau bod system cymorth cyfreithiol troseddol effeithiol ac effeithlon ar gael a'i bod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

3. Fe wnaethon ni gytuno i gyflwyno cynigion cyflymach i fynd i'r afael â materion allweddol a oedd o bryder di-oed yn ôl y proffesiynau amddiffyn troseddol, a hynny cyn canlyniad yr adolygiad llawn. Ym mis Awst 2020, ar ôl ymgynghori, fe wnaethon ni gyhoeddi pecyn o fesurau a oedd yn ymwneud â'r canlynol
  - sut mae ymgyfreithwyr ac eiriolwyr yn cael eu talu am waith am ddeunydd sydd ddim yn cael ei ddefnyddio
  - sut mae eiriolwyr yn cael eu talu am waith ar achosion sy'n drwm ar bapur
  - sut mae eiriolwyr yn cael eu talu am dreialon chwâl yn Llys y Goron
  - sut mae ymgyfreithwyr yn cael eu talu am y gwaith o anfon achosion i Lys y Goron
4. Drwy'r llwyddiannau cyflym hynny, llwyddwyd i chwistrellu rhwng £35 miliwn a £51 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol i gymorth cyfreithiol troseddol.
5. Doedd dim modd cynnwys y maes cyflymach olaf – sut mae ymgyfreithwyr yn cael eu talu am ymgysylltu cyn cyhuddo – yn yr ymgynghoriad yn gynharach yn y flwyddyn gan fod y Twrnai Cyffredinol yn ymgynghori<sup>i</sup> ar ddiwygio'r canllawiau ar ddatgelu, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer ymgysylltu cyn cyhuddo. Erbyn hyn mae canllawiau diwygiedig wedi cael eu cyhoeddi ac wedi dod i rym ers diwedd 2020.<sup>ii</sup>
6. Mae ymgysylltu cynnar ac ystyrllon rhwng tîm yr erlyniad a'r amddiffyniad yn hanfodol er mwyn gwella'r broses ddatgelu a hwyluso hynt achosion, rhywbeth sydd o fudd i rai a amheuir, yr achwynwyr, yr amddiffyniad, yr awdurdodau erlyn a'r system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd.
7. Felly, roedden ni wedi cynnig uned waith newydd i roi cyngor a chymorth yn gysylltiedig ag ymgysylltu cyn cyhuddo, fel y diffinnir yng nghanllawiau'r Twrnai Cyffredinol. Bydd ymarferydd yr amddiffyniad yn cael tâl lle bydd cytundeb rhwng y partïon perthnasol (erlynwyr ac/neu ymchwilwyr, y rhai a amheuir a chynrychiolwyr cyfreithiol y rhai a amheuir) y gall ymgysylltu cyn cyhuddo gynorthwyo'r ymchwiliad a bod cofnod ysgrifenedig llawn o'r trafodaethau yn cael ei wneud gan yr amddiffyniad. Gall y naill barti neu'r llall ei gychwyn. Bydd hawliadau am y gwaith hwn yn amodol ar y broses archwilio safonol a ddefnyddir gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) ar gyfer yr holl Waith Contract arall.
8. Daeth yr ymgynghoriad ar ymgysylltu cyn cyhuddo i ben ddydd Llun 25 Ionawr 2021. Ar sail y nifer fechan o ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad hwn, rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad gwreiddiol, ond ni fyddwn yn cynnwys gofyniad am gytundeb ysgrifenedig, gan nad yw hyn yn rhan o ganllawiau'r Twrnai Cyffredinol, a byddwn yn hytrach yn derbyn cytundeb llafar anffurfiol ar ffurf nodyn yn y ffeil fel sbardun ar gyfer ymgysylltu cyn cyhuddo.

---

<sup>i</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-on-revisions-to-the-attorney-generals-guidelines-on-disclosure-and-the-cpia-code-of-practice>

<sup>ii</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/attorney-generals-guidelines-on-disclosure-2020>